

Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau Gofal
Iechyd i Gymru –
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Hydref 2007

Cynnwys

	Tudalen Rhif
1. Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2. Proses Asesu 2006-07	5
3. Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin	9
4. Canfyddiadau	
▪ Profiad y Claf	11
▪ Canlyniadau Clinigol	23
▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	27
▪ Iechyd y Cyhoedd	46
5. Camau Nesaf	51
Atodiadau	
Atodiad 1: Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd	53
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon	54
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Canlyniadau Corfforaethol, Gweithredol/ Clinigol a Lefelau Profiad y Defnyddiwr	61
Atodiad 4: Rhestr Termau	63

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin o berfformiad yn 2006-2007 yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn cyflwyno fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin i gynorthwyo'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, ac yn bennaf, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i ddarparu'r lefelau gofal a thriniaeth gwell y mae gan bobl Cymru hawl i'w disgwyl yn rhesymol ac felly darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* yn nodi 32 o safonau mewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

¹ Diffinir sefydliadau gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, yn cynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil wedi'i asesu'n briodol, yn nodi sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

Y bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5. O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol o sut y maent wedi perfformio.

1.6. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiadau a'u hunanasesiadau'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu profi a dilysu canlyniadau, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn yr adran ganlynol.

1.7. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfiad â'r safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Mae 2006-2007 wedi bod yn flwyddyn o ddatblygiad a datblygwyd a phrofwyd proses newydd o asesiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r pwyslais wedi bod ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod cyfrifoldeb yn bendant ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd am gydymffurfiad â'r *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ac sy'n cefnogi'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac yn bwysicach y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae'r Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiad yn cael ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*² – sut brofiad mae'r defnyddiwr yn ei gael ac a yw hyn yn gwella?

2.3. Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd fel dull asesu ar y we sy'n galluogi i hunanasesiadau gael eu cwblhau ar-lein a thystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd i bob cwestiwn i gael ei lanlwytho. Ategir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n darparu cyfarwyddyd defnyddiol ar ofynion bob un o'r 32 safon.

² Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

2.4. Mae wedi bod yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn bob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu ar y lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr fel bod ar un o bum lefel o aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Mae diffiniadau o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

2.5. Gan y bu hon yn flwyddyn o ddatblygiad, mae sefydliadau'r GIG wedi gorfod bodloni rhai terfynau amser tyn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno hunanasesiad i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, tri mis ar ôl i'r dull asesu gael ei ryddhau. Bodlonwyd y terfyn amser gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin a hoffem gydnabod y llwyth gwaith aruthrol, ymdrech ac ymroddiad a ddangoswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin i sicrhau y bodlonwyd y terfynau amser.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin, ac mae hyn wedi cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* - Dilysiad pen bwrdd o'r hunanasesiad gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi pa un a oedd y cwestiynau oedd yn ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi pa un a oedd yr ateb wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r marc aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli trwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol i sicrhau bod y marcio yn gyson ac wedi'u safoni.

- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau ar brofiad y claf/y defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Roedd yr ymweliad safle'n un cam o'r broses o ddilysu a phrofi hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin, ac fel y nodwyd uchod, roeddent yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 11 a 12 Medi 2007.

2.8. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag aelodau'r staff a chleifion ar y diwrnod cyntaf, ac ar yr ail ddiwrnod, bu dau ymweliad arsylwi ag adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, yr Adran Cleifion Allanol yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru ac Ysbyty'r Tywysog Philip a'r wardiau gofal henoed yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru ac Ysbyty'r Tywysog Philip. Hefyd, cynhaliwyd archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, hyfforddiant a gwerthuso ar staff oedd ar ddyletswydd yn yr adrannau/wardiau uchod ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9 Ym mis Awst, cyd-gysylltwyd a hwyluswyd tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu i'r broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu mwy o wybodaeth ledled sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrhau ar y cyd.

3. Trosolwg o'r Ymddiriedolaeth

3.1 Mae Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin yn darparu gwasanaethau ysbyty aciwt a brys trwy ddwy brif ysbyty - Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Glangwili, Caerfyrddin ac Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. Darperir gwelyau cefnogaeth, gofal parhaus ac adsefydlu ar gyfer cleifion mewnol mewn pedwar ysbyty bach pellach yn Ysbyty Dyffryn Aman (Glanaman), Ysbyty Llanymddyfri ac Ysbyty Mynydd Mawr (Tymbel Uchaf).

Mae Canolfan Elizabeth Williams, Llanelli a Chlinig Pond Street, Caerfyrddin yn ganolbwynt i amrywiaeth eang o wasanaethau cymunedol. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth yn gofalu am lawer o gleifion yn eu cartrefi eu hunain trwy ei gwasanaethau nyrsio a therapi cymunedol.

Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin fwy na 3,200 o weithwyr cyflogedig, yn cynnwys staff meddygol, nyrsio, proffesiynol, gwyddonol, technegol, cynorthwyol a gweinyddol, ac mae'n un o gyflogwyr mwyaf yr ardal.

4. Canfyddiadau – yn Cynnwys Meysydd Gwelliant ac Arferion Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S1.2. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn awgrymu bod fframweithiau cadarn wedi'u sefydlu i gefnogi prosesau Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) drwy'r Polisi PPI, yn cynnwys mynd i'r afael â phryderon y claf a darparu cymorth ac eiriolaeth i gleifion. Ni ddarparwyd peth tystiolaeth. Er enghraifft, nid oedd cofnodion yn dangos bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn monitro bod y fframweithiau hyn yn cyflawni ac nid oedd digon o dystiolaeth i gadarnhau bod gwelliannau parhaus yn digwydd. Rydym o'r farn felly mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S1.3. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac mae'n mynd i'r afael â materion allweddol. Darparwyd tystiolaeth dda o gymhwysio ymarferol: datblygu gallu prosesau PPI a galluoedd aelodau'r staff trwy gynnwys atebolrwydd a chyfrifoldeb am PPI mewn disgrifiadau swydd, cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gwynion (er bod yr Ymddiriedolaeth yn derbyn bod ymwybyddiaeth o sut i wneud cwyn yn wael ymhlith defnyddwyr gwasanaeth), holiaduron i gleifion ar brofiadau aros. Roedd y Rhaglen Iechyd Plant yn enghraifft dda o waith sy'n cael ei ddatblygu ledled meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

S1.4. Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, darparwyd enghreifftiau da gan yr Ymddiriedolaeth ar ffurf cwestiynau a ofynnwyd i Banel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin, newid oriau ymweld yn dilyn awgrymiadau gan gleifion a'r Prosiect Bwydo ar y Fron.

Ymhlith yr enghreifftiau da o newidiadau a roddwyd ar waith yn ystod y 12 mis diwethaf roedd: cyflwyno rhaglen dreigl o fwydlenni cleifion am bythefnos, yr Offeryn Archwilio Maeth a enillodd dystysgrif gan y *National British Journal of Nursing*, y broses o ddatblygu a mireinio '*physio direct*'. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y cynllun gweithredu PPI yn cael ei fonitro. Hefyd, fel y casglwyd yn ystod yr ymweliadau safle, dywedodd y cleifion a holwyd nad oeddent yn cael cyfle i roi adborth ar eu profiadau, yn enwedig yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru. Rydym asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. *yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. *yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. *yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- ch. *yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S2.2. Mae'r bwrdd yn penderfynu ar/ymateb i anghenion y boblogaeth a wasanaethir trwy waith dadansoddi a gyflawnir gan y GICC ar ran yr Ymddiriedolaeth. Amlinellir blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth mewn dogfennau allweddol yn cynnwys y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid a'r Rhaglen Newid Strategol ac Effeithlonrwydd. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau a roddir. Rheolir prosesau ar gyfer ymdrin â galw a gofynion sy'n cystadlu gan sawl pwyllgor, yn cynnwys y Pwyllgor Gwella Ansawdd Clinigol. Nodir y blaenoriaethau a'r galw trwy'r Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid, y Rhaglen Newid Strategol ac Effeithlonrwydd a Chardiau Sgorio Cytbwys. Amlinellir sicrwydd y bwrdd o degwch o ran mynediad ym Mholisi drafft newydd yr Ymddiriedolaeth ar Fynediad i Gleifion, sy'n cynnwys rheoli rhestrau aros. Rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol gan ei bod yn mynd i'r afael â'r materion allweddol, ond nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu gwelliant parhaus ledled y sefydliad.

S2.3. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Roedd y meysydd a gafodd eu canmol yn cynnwys yr astudiaeth Canllaw (Gwasanaeth Gofal Canolraddol Cymunedol) a grŵp defnyddwyr y gwasanaethau Syndrom Down. O ran monitro cydymffurfiaid a pherfformiad yn erbyn tystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, byddem wedi hoffi cael gweld rhagor o dystiolaeth o feincnodi allanol.

S2.4. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud ymdrechion da i sicrhau ei bod yn derbyn adborth gan gleifion mewn amrywiaeth eang o feysydd fel bod gan gleifion fynediad at y gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arnynt. Hysbysir y cyhoedd am dystiolaeth ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol trwy ddigwyddiadau hybu iechyd, y wasg leol a'r broses caniatâd seiliedig ar wybodaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu sawl taflen wybodaeth sy'n rhoi dewisiadau i gleifion ar gyfer cael mynediad at wasanaethau, ond mae'n ymddangos mai prin yw'r wybodaeth a ddarperir am amseroedd aros. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â materion allweddol er nad oes digon o dystiolaeth o welliant parhaus i gyfiawnhau aeddfedrwydd Ymarferol, ac felly rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S3.2. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol. Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd trwy adroddiadau misol ar y targed o 95%. Hefyd, defnyddir y Dangosyddion Perfformiad i fesur perfformiad gweithredol ledled y sefydliad ac fe'u cyflwynir i'r Bwrdd a'r Grŵp Perfformiad Gweithredol.

S3.3. Unwaith eto, rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ac mae cynlluniau'n cael eu sefydlu ledled y sefydliad. Mae'r Grŵp Rheoli Cleifion yn amlwg yn arfer effeithiol a gydnabuwyd trwy ennill gwobr Ann Lloyd am Arweinyddiaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar berfformiad gweithredol o ran 'osgoi derbyniadau' ledled y sefydliad'.

S3.4. Dywedodd y cleifion a'r defnyddwyr gwasanaeth wrthym nad oeddent yn gwybod beth oedd yr arfer gorau, a hyd yn oed pe baent yn gwybod, sut fyddent yn gwybod eu bod yn ei dderbyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r diffygion yn y maes hwn ac yn ymdrechu i'w datrys fel rhan o'i rhaglen wella. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a. yn hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. yn parhau anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;*
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S4.2. Rydym yn teimlo bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol ac mae tystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad. Enwebwyd Dirprwy Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth i weithredu fel Hyrwyddwr Dylunio'r sefydliad. Y Bwrdd sy'n pennu Strategaeth y Gwasanaeth sy'n nodi holl flaenoriaethau byrdymor, tymor canol a hirdymor yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo 'Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd' ar gyfer yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau dull buddsoddi strategol a gynlluniwyd ac mae wedi cefnogi gwerth £47 miliwn o waith cyfalaf ers ffurfio'r Ymddiriedolaeth. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S4.3. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol hefyd. Mae hyn yn rhannol oherwydd na atebwyd y cwestiwn am gydymffurfiaid cydraddoldeb yn gywir ond yn bennaf gan mai prin yw'r dystiolaeth o waith gwerthuso a meincnodi'n arwain at welliant parhaus.

S4.4. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae defnyddio cleifion yn y Grwpiau Prosiect yn cynnig tystiolaeth dda o'r lefel aeddfedrwydd hon. Mae enghreifftiau da hefyd o gwynion defnyddwyr gwasanaeth yn arwain at newidiadau i'r amgylchedd gofal a champau'n cael eu cymryd yn dilyn digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ymwneud â diogelwch, er nad yw cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth yn nodi faint gymerodd hi i'r Ymddiriedolaeth ddatrys y problemau.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn;*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Arweiniol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S5.2. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol. Darparwyd tystiolaeth dda'n dangos gwelliant parhaus ledled y sefydliad cyfan, yn cynnwys caffael y system lanhau 'Microfibr' newydd i wella safonau glanhau, ond dim digon i ddangos arferion arloesol a rennir ar draws ffiniau. Hefyd, nid oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu bodloni gofynion Targed 12a y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid yn ymwneud â rhaglenni gwyliadwriaeth o Heintiadau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd yn ymgorffori 95% o'r boblogaeth darged.

S5.3. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Arweiniol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Roedd tystiolaeth ragorol o fesurau canmoladwy ac arferion gorau ledled y sefydliad. Roedd tystiolaeth dda o arferion a rennir ar draws ffiniau, ac yn arbennig y fethodoleg a ddefnyddir i greu a chynnal yr Arolwg o Nifer Achosion, a fabwysiadwyd ar gyfer arolwg i'w gynnal ledled y DU.

S5.4. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Ymddiriedolaeth Sir Gaerfyrddin oedd yr Ymddiriedolaeth gyntaf yng Nghymru i lansio ymgyrch Glanhewch eich Dwylo Cymdeithas Genedlaethol Diogelwch Cleifion. Yn ystod yr ymweliad safle, teimlwyd bod glendid o safon uchel iawn ac roedd digonedd o dystiolaeth bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â gwaith rheoli heintiadau h.y. roedd digon o gel dwylo ar gael. Fodd bynnag, gallai codi ymwybyddiaeth fod yn broblem i'r Ymddiriedolaeth gan y nodwyd yn ystod yr ymweliad safle na ellid gweld posteri ar y mater hwn ym mhob man.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. *yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth;*
- c. *rhoei cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i drafod a chytuno ar ddewisiadau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2. Fe wnaethom asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol gan nad oedd tystiolaeth benodol o sicrhad y Bwrdd yn ei chyflwyniad. Ni atebwyd y cwestiwn pa un a oedd gwybodaeth ar gael ac yn hygyrch i bawb yn brydlon. Diweddarir y wefan ond mae'n amlwg nad oes gan bawb fynediad at y rhyngwyd, yn enwedig yr henoed. O ran gwybodaeth am amodau, y gofal a'r driniaeth sydd ar gael, yn gyfredol ac yn brydlon, mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn esbonio y rhoddir y fath hon o wybodaeth i gleifion yn yr adran cleifion allanol, y Clinig Asesu Cyn-

derbyn ac adrannau diagnostig fel Radiograffeg, Patholeg ac ati. Mae logo'r Adran Iechyd ar dudalen flaen y ddogfen bolisi a gyflwynwyd. Mae hyn yn awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu'r polisi hwn fel ei pholisi ei hun o ran Caniatâd i Archwiliad neu Driniaeth. Hoffem fod wedi cael gweld rhywfaint o dystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio dull mwy rhagweithiol, yn cynnwys copi o gofnodion y Bwrdd sy'n dangos rhywfaint o waith craffu gan y Bwrdd.

S6.3. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae tystiolaeth gadarn o gyfathrebu ledled yr Ymddiriedolaeth, ac mae'n ymddangos y defnyddir dull mwy rhagweithiol, h.y. ceisio datblygu a gwella dulliau o roi gwybodaeth am weithdrefnau caniatâd i gleifion. Cydnabuwyd hyn hefyd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Llywodraeth Glinigol tair blynedd. O ran systemau a phrosesau a sefydlwyd i gynorthwyo'r datblygiad a'r ddarpariaeth o wybodaeth am amodau, gofal a thriniaeth, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael, mae'r ymateb yn cynnig amrywiaeth eang o dystiolaeth o ddeunyddiau dwyieithog ond mae'n ymddangos bod diffyg mesurau i fynd i'r afael â gwahaniaethau iaith eraill. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r gefnogaeth a roddir i aelodau'r staff i fodloni'r ymrwymiad hwn.

S6.4. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu sawl proses i fonitro y gall defnyddwyr gwybodaeth gael gafael ar wybodaeth, yn cynnwys: grŵp defnyddwyr cleifion allanol, arolygon cleifion, aelodaeth o Gyngor Iechyd Cymuned (CHC) ar grwpiau llywio/ffocws a chyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, unwaith eto mae'n ymddangos mai prin yw'r gwaith ar anghenion iaith neu ddiwylliannol eraill ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod hyn ac wrthi'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gontract gyda *Llinell Iaith* ac mae gwasanaeth cyfieithu ar gael. Gosodwyd dolenni sain i'r rhai sy'n drwm eu clyw yn dilyn archwiliad. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2. Nid yw'n ymddangos bod y Bwrdd wedi nodi unrhyw adnoddau i gleifion reoli eu gofal eu hunain. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o sawl menter berthnasol, a chyflawnir rhai ohonynt mewn cydweithrediad â BILI Sir Gaerfyrddin. Mae'r adroddiad ar waith y Tîm Rheoli Afiechydon Cronig yn cynnig crynodebau diddorol o achosion ond nid oedd yn cynnwys enghreifftiau o alluogi cleifion i reoli eu gofal eu hunain. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o gyfeiriad/cynlluniau strategol a phrin oedd y dystiolaeth o arferion ledled y sefydliad. O ran cleifion yn cael eu hymrymuso i wneud penderfyniadau am eu gofal/triniaeth, mae'r enghreifftiau a roddwyd yn darparu tystiolaeth o gyfeiriad strategol, er nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd yn monitro cydymffurfriad. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol felly.

S7.3. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gan y darparwyd tystiolaeth dda y bodlonwyd y safon ledled y sefydliad. Mae'r llyfryn Ymsefydlu Corfforaethol yn dangos bod rhaglen ymsefydlu gadarn wedi'i sefydlu. Mae'r Gweithdy Profiad Cleifion, y Rhaglen Cleifion Arbenigol a'r Tîm Ymateb Acíwt yn enghreifftiau da o fecanweithiau a sefydlwyd i ddatblygu gallu mewn hunanofal.

S7.4. Rhoddodd y cleifion y siaradom ni â nhw fel rhan o'r ymweliad safle enghreifftiau o brofiadau a oedd yn amrywio, ond roedd y rhan fwyaf o brofiadau'n gadarnhaol, yn enwedig o ran gofal iechyd. Fe wnaethant ein hysbysu hefyd mai amrywiaeth fach iawn o ddewisiadau gofal a thriniaeth a gynigir. Felly rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr gan ein bod o'r farn bod profiadau'n gwella mewn sawl maes ond nad ydynt yn gyson ledled y sefydliad eto.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. *bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*

- b. *bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. *yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; ac*
- ch. *bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, a eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2. Rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol gan fod enghreifftiau da o'r Bwrdd yn mynd i'r afael â materion allweddol trwy gynlluniau strategol a dangosir arferion da ledled y sefydliad. Mae'r Polisi Gwarchodwyr (Chaperone) yn cyflwyno canllaw ar gyfer defnyddio gwarchodwyr a gweithdrefnau a ddylai fod wedi'u sefydlu ar gyfer ymgynghoriadau, archwiliadau ac ymchwiliadau. Mae'n diffinio pwy sy'n gyfrifol am gael caniatâd, yn seiliedig ar arfer da a gydnabyddir ledled sefydliadau gofal iechyd. Mae tystiolaeth hefyd bod y Bwrdd yn monitro cydymffurfriad. Mae pwyllgor Adnoddau Dynol sy'n cyfarfod bob chwarter er mwyn sicrhau bod aelodau'r staff yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer o strategaethau, polisiau a gweithdrefnau sydd ar gael i aelodau'r staff trwy safle fewnwyd yr Ymddiriedolaeth. Mae Polisi Caniatâd i Archwiliad neu Driniaeth cyffredin wedi'i sefydlu ond hefyd defnyddir polisi ar wahân ar gyfer nyrsys, bydwragedd a nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol sydd angen derbyn caniatâd ysgrifenedig gan glaf. Unwaith eto, mae nifer o bolisiau'n ymwneud â chyfrinachedd yn cynnwys: Polisi Cadw Cofnodion Clinigol a Pholisi Gweinyddu Cleifion Allanol.

S8.3. Rydym yn cytuno hefyd bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae staff yn derbyn hyfforddiant ac yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bwysigrwydd trin cleifion gydag urddas a pharch trwy'r safonau craidd a amlinellir yn *Essence of Care* (yr Adran Iechyd 2001) a Hanfodion Gofal (LICC 2003), sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd o gyfathrebu'n ddidwyll ac agored a thrin pobl gyda chydymdeimlad a dealltwriaeth. O ran y ffordd mae aelodau'r staff yn cael eu trin, mae nifer o enghreifftiau da o arferion i gasglu sylwadau aelodau'r staff, er ei bod yn ymddangos eu bod yn fwy ymatebol na rhagweithiol. Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol a sicrhau bod aelodau'r

staff yn ymwybodol ohonynt, fel y Ddeddf Galluedd Meddyliol a fydd yn cael effaith fawr ar ganiatâd ac sy'n dod i rym ym mis Hydref 2007. Sefydlwyd rhai mentrau da'n ymwneud â chyfrinachedd, yn enwedig ar 'hysbysu am newyddion drwg'. Disgrifir trefniadau Caldicott mewn taflen gryno sydd ar gael i bob aelod o'r staff.

S8.4. Nid yw'n ymddangos bod y materion a amlygwyd yn ymateb yr Ymddiriedolaeth fel gwelliannau yn ystod y 12 mis diwethaf yn mynd i'r afael ag urddas a pharch yn uniongyrchol, er eu bod yn cael eu hawgrymu, er enghraifft dyfyniadau o lythyrau cleifion sy'n diolch i'r Ymddiriedolaeth am y gofal a ddarparwyd iddynt ond heb grybwyll urddas a pharch. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r staff yn enghreifftiau da o adborth a diwygiadau dilynol i arferion. Er nad yw'n eglur os yw hyn yn digwydd ledled yr Ymddiriedolaeth. Amlygwyd diffygion o ran datblygiad proffesiynol i glercod wardiau yng nghyflwyniad yr Ymddiriedolaeth - mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Mae Llyfrgell Gofal Iechyd Eido'n fenter dda. Mae'r Cynllun Parhaus tair blynedd yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd sy'n cael ei wneud ym mhob Cyfarwyddiaeth, a bod cynlluniau gwaith wedi'u sefydlu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod cyfrinachedd cleifion yn faes y mae angen rhoi sylw iddo ac mae rhoi ystyriaeth i gyfrinachedd yn ofyniad ar gyfer pob 'adeilad newydd'. Mae'n ymddangos bod mecanweithiau eraill ar gyfer monitro cydymffurfiad yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol. Amlygodd y grwpiau ffocws gydag aelodau'r staff a chleifion nad yw agweddau Ymgynghorwyr Meddygol at gleifion yn dangos digon o gydymdeimlad weithiau a dywedodd rhai cleifion eu bod yn amharod i achwyn rhag ofn iddynt ddiodef 'ôl-effeithiau'. Yn gyffredinol, rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ac mae profiadau'n gwella mewn sawl maes, er nad ydynt yn gyson ledled y sefydliad eto.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. *bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau diet cytbwys; a*
- b. *bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran diet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S9.2. Y Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau gwasanaeth arlwyo diogel a maethlon. Mae'r Polisi Arlwyo a Hylendid Bwyd yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau unigolion allweddol. Mae Grŵp y Strategaeth Faeth yn gyfrifol am gydgysylltu gofal maeth a gwasanaethau arlwyo yn ogystal â monitro perfformiad yn erbyn safonau cenedlaethol. Mae'r Grŵp yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd. Nid yw'n ymddangos bod y bwrdd yn derbyn llawer iawn o wybodaeth am drin a storio bwyd, er y cynhelir archwiliadau mewnol ar hap ac adroddir yn ôl i Gyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth arnynt. Nid oedd ymateb yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â gwahanol ofynion dietegol maeth, diwylliannol a chlinigol. Mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau yr ystyrir cleifion sydd angen cymorth i fwyta fel rhan o waith cynllunio'r gweithlu ac mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r system 'Hambwrdd Coch', lle mae hambwrdd bwyd coch yn dynodi bod angen cymorth ar glaf. Unwaith eto, prin yw'r dystiolaeth bod mecanweithiau sicrhau'r bwrdd ar waith, er yr amlygir yr angen i gryfhau mecanweithiau adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn y cynllun gwella. Rydym yn ystyried felly bod yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â'r materion allweddol yn ymarferol ledled y sefydliad ac yn cytuno gyda'r asesiad **Datblygol** ar y lefel Gorfforaethol.

S9.3. Mae sawl darn da o dystiolaeth o'r ffordd y sefydlir systemau yn lleol. Mae'r Diet Therapiwtig yn adlewyrchu arferion gorau cyfredol a chynhelir mentrau helaeth i aelodau'r staff o ran storio bwyd ac o ran systemau i benderfynu, asesu a bodloni gwahanol ofynion maeth y cleifion. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth bod y mentrau hyn yn cael eu gwerthuso a'u meincnodi gan arwain at welliant parhaus. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S9.4. Yn dilyn archwiliad o ddietau stwnsh, penderfynwyd y dylid creu bwydlen ar wahân ar gyfer cleifion sydd angen dietau y mae eu hansawdd wedi'u haddasu. Mae cydymffurfriad â rheoliadau storio, trin a pharatoi bwyd yn cael ei fonitro gan Adran Iechyd yr Amgylchedd, ac mae'r Tîm Rheoli Heintiad yn cynnal archwiliadau

ar hap hefyd. Er mwyn monitro a yw cleifion yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, mae Dull Sgrinio Maeth sy'n canfod cleifion mewn perygl maethol. Dilyswyd y Dull hwn. Cadarnhaodd trafodaethau mewn grwpiau ffocws gyda chleifion y cynigir cymorth yn gyffredinol i'r rhai na allant fwydo eu hunain ond y gwelwyd rhai eithriadau ar adegau prysur. Ystyriwyd bod ansawdd y bwyd yn wael hefyd ac yn aml, oherwydd proses gyfathrebu wael rhwng y gegin a'r ward, ni fodlonwyd gofynion bwyd arbennig yn iawn. Yn gyffredinol, rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr gan fod profiadau'n gwell, ond nid ydynt yn gyson ledled y sefydliad eto.

Safon 10

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S10.2. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol. Mae tystiolaeth o arferion da ledled yr Ymddiriedolaeth, diweddaru hyfforddiant Hawliau Dynol holl aelodau'r staff yn cynnwys aelodau'r Bwrdd yn 2006-2007 er enghraifft. Sefydlwyd Pwyllgor Adnoddau Dynol sy'n is-bwyllgor i'r Bwrdd ac mae holl aelodau'r Bwrdd yn aelodau o'r pwyllgor. Mae Grŵp Llywio Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol bob chwarter, gan gyflwyno'r cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu strategol. Hefyd, mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yn adrodd i'r Bwrdd ar ei raglenni a'i argymhellion.

S10.3. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob proses ymsefydlu staff. Mae rhaglenni Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gael ac mae presenoldeb ar y rhaglenni hyn yn cael ei fonitro bob chwarter. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr hyfforddiant yn ddewisol ac mae'r dystiolaeth a ddarparwyd braidd yn rhy

gyffredinol. Felly mae'n anodd cadarnhau bod y safon hon yn cael ei bodloni ledled y sefydliad.

S10.4 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, rydym yn cytuno mai **Datblygol** yw asesiad yr Ymddiriedolaeth ac mae rhai enghreifftiau gwerth chweil wedi'u cynnwys yng nghyflwyniad yr Ymddiriedolaeth, fel: Sefydlu'r system Dolen Sain i'r rhai â phroblemau gyda'u clyw, penodi cyfieithwyr Pwyleg ar y pryd i ddiwallu anghenion y gymuned Bwylaidd leol. Rydym o'r farn y bydd y camau a amlygwyd yng nghynllun gwella'r Ymddiriedolaeth o gymorth i symud yr Ymddiriedolaeth i aeddfedrwydd Ymarfer.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;*
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a*
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S11.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S11.2. Rydym wedi asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol. Darparodd yr Ymddiriedolaeth lawer o enghreifftiau o'r ffordd y sicrhewr y Bwrdd bod gofal a thriniaethau clinigol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau. Mae'r Strategaeth Llywodraethu Clinigol yn nodi'r cyfeiriad strategol i gyflawni hyn ac mae'n seiliedig ar bolisiâu allweddol eraill fel y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o welliant parhaus ar y lefel hon.

S11.3. Sefydlwyd dull strwythuredig o archwilio cydymffurfiad â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) a Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol ac ar gyfer dosbarthu archwiliadau a diwylliant o arferion clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae rhaglenni datblygu staff wedi'u diffinio'n dda yn yr Ymddiriedolaeth ac mae adolygiadau gan gymheiriaid wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o brosesau adolygu staff nyrsio a meddygol. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth yn bodloni'r safon hon ledled y sefydliad er na ddarparwyd tystiolaeth o feincnodi/gwerthuso'n arwain at welliant parhaus. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol felly.

S11.4. Mae'r broses caniatâd seiliedig ar wybodaeth yn ganolog i sicrhau cleifion bod penderfyniadau clinigol yn seiliedig ar arferion gorau. Hefyd, mae gwybodaeth i

gleifion trwy gyhoeddiadau a thafleuni'n bwysig. Rhennir canlyniadau archwiliadau gyda chleifion mewn ffyrdd amrywiol. Yn dilyn Archwiliad Cenedlaethol, atgynhychir adroddiadau cyhoeddus yn lleol, Adroddiad Cyhoeddus Cenedlaethol Strôc Sentinel er enghraifft. Mae cynrychiolwyr cleifion mewn grwpiau adborth ar ganlyniadau archwiliadau, Archwiliadau Hylendid Dwylo er enghraifft. Mae enghreifftiau da o brofiadau claf yn effeithio ar sgiliau a thechnegau aelodau'r staff, er enghraifft, nododd waith monitro amseroedd aros am brofion diagnostig radiolegol broblem yn y gwasanaeth i gleifion. O ganlyniad, hyfforddwyd Radiograffwyr yr Ymddiriedolaeth i ddehongli canlyniadau pelydr-x, swyddogaeth a gyflawnir gan radiolegwyr ymgynghorol yn unig fel rheol. O ran goruchwyliaeth glinigol briodol ac arweinyddiaeth effeithiol, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig cyrsiau arweinyddiaeth mewnol amrywiol a hefyd yn noddi aelodau'r staff i fynychu cyrsiau arweinyddiaeth allanol. Mae'n werth crybwyll i brif nyrs o'r Uned Dibyniaeth Fawr ennill dyfarniad Ann Lloyd am y crynodeb gorau yn y categori arweinyddiaeth mewn arloesed. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth dda y bodlonir y safon hon ledled y sefydliad ac o welliant parhaus. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

Safon 12

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S12.2. Ni atebwyd y rhan o'r cwestiwn sy'n ymwneud â'r Bwrdd yn sicrhau yr ystyrir anghenion cleifion. Sefydlwyd yr agweddau sylfaenol ar ofal trwy Raglen Hyfforddiant Hanfodion Gofal a gynhelir bedair gwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes unrhyw graffu na thrafodaeth am y rhaglen o safbwynt y Bwrdd. Hefyd, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd yn sicrhau gwaith partneriaeth effeithiol ac ychydig i ategu bod Llwybrau Gofal Integredig yn cael eu blaenoriaethu, er y nodwyd bod Tîm Rheoli'r Ymddiriedolaeth yn monitro hyn. Yn gyffredinol, prin yw'r dystiolaeth o welliant parhaus arwyddocaol ac o ganlyniad, rydym wedi asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S12.3. Y prif ddull o baratoi aelodau'r staff i addasu i wahanol anghenion y cleifion yw trwy Raglen Hyfforddiant Hanfodion Gofal. Enwebir myfyrwyr mewn parau gan eu rheolwyr llinell. Mae'r strategaethau addysgu'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ac yn seiliedig ar ddamcaniaethau dysgu cydweithredol ac maent yn derbyn cymorth ac anogaeth drwy'r rhain. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan ei bod wedi bod yn brysur a rhagweithiol o ran datblygu a sefydlu Llwybrau Gofal Integredig a darperir ffeithiau a ffigurau i gefnogi hyn. Mae tystiolaeth y bodlonir y safon hon ledled y sefydliad ond dim digon o dystiolaeth o werthuso'n arwain at welliant parhaus. Ni allwn gytuno felly gyda hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ac rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r asesiad ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S12.4. Mae Llwybr Gofal Integredig Llawfeddygaeth y Colon a'r Rhefr wedi lleihau hyd arosiadau cleifion o 21 diwrnod i 11 diwrnod. Mae'r cleifion yn meddu ar eu gwybodaeth eu hunain dan Lwybr Gofal Integredig Wlserau Coes, gan eu hymrymuso a galluogi cysondeb rhwng gwahanol leoliadau gofal. Mae Llwybr Gofal Integredig Gadael yr Ysbyty wedi arwain at waith cynllunio gadael yr ysbyty diogel a phrydlon gan gynorthwyo i sicrhau y diwallir anghenion cleifion, sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl a sicrhau nad oes unrhyw fylchau diangen yn eu gofal. O ran newidiadau a wnaed yn dilyn cwynion a chanmoliaeth, mae angen adolygu polisïau casglu data'r Ymddiriedolaeth er mwyn cynnwys cwynion a chanmoliaeth, er bod hyn wedi'i nodi yn ei chynllun gweithredu. Yn gyffredinol, rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 13

Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S13.2. Sicrheir y Bwrdd bod gwaith ymchwil a gyflawnir yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol trwy'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu, ac mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol y Bwrdd. Mae nifer o ganllawiau a chrynodebau ar gael i gynorthwyo ymchwilwyr i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth. Nodir pum maes arfer da a rhoddir rhywfaint o sylw i wneud gwelliannau, ond nid ydynt ar lefel weithredol ac nid ydynt yn dystiolaeth o welliannau parhaus sylweddol a wnaed o ganlyniad i ad-drefnu/adolygu prosesau ac ati a ddefnyddir i sicrhau'r Bwrdd. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol felly.

S13.3. Rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae systemau cyfathrebu ar gyfer ymwybyddiaeth o'r fframwaith llywodraethu ymchwil yn cynnwys y Clwb Ymchwil, arddangosfeydd poster, e-byst a'r gynhadledd Ymchwil a Datblygu ym maes nyrsio wedi'u sefydlu. Hefyd, mae gan lyfrgelloedd y ddau brif ysbyty hysbysfyrddau Ymchwil a Datblygu. Mae hyfforddiant unigol yn effeithiol ac mae Grwpiau Ymchwil a Datblygu ar gyfer nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yn dangos y bodlonir y safon hon ledled y sefydliad. Pe bai mwy o dystiolaeth o waith gwerthuso a meincnodi'n arwain at welliant parhaus, gallai'r Ymddiriedolaeth fod ar y lefel aeddfedrwydd nesaf.

S13.4. Fe wnaed newidiadau i ganllawiau a ddarperir i ymchwilwyr yn unol â deddfwriaeth sydd wedi newid ond ni fu unrhyw werthusiad o'r effaith mae'r newidiadau hyn yn ei chael ar brofiad y claf. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydweithredu gydag Ymddiriedolaeth GIG Abertawe sydd wedi golygu mwy o gyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn profion cenedlaethol. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

S13.5. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch a iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r deddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2. Sefydlwyd nifer o bolisiâu, gweithdrefnau a mecanweithiau adrodd sy'n dangos cyfeiriad strategol, ond ni ddarparwyd tystiolaeth eglur o'r ffordd y sicreir y Bwrdd. O ran deddfwriaeth ac arferion rheoli risg gorau, mae Adroddiad Cyfunol Bob Chwarter ar Reoli Risg, Cwynion a Hawliadau ac archwilir yr adroddiad hwn gan aelodau'r Bwrdd. Rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S14.3. Sefydlwyd amrywiaeth eang iawn o weithdrefnau sy'n cynnig cyfleoedd i aelodau'r staff gyfrannu at weithgareddau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddiogelwch ac iechyd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd, a chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Sefydlwyd ffyrdd o sicrhau bod aelodau'r staff yn ymwybodol o ofynion deddfwriaethol hefyd. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth a ddarparwyd o waith gwerthuso neu feincodi'n arwain at welliant parhaus, ac felly rydym o'r farn mai **Datblygol** yw asesiad yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S14.4. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yng nghyswllt cwestiwn Profiad y Defnyddiwr yn hynod amrywiol. Mae'n cynnwys esboniad o'r ffordd mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys: cyfarfodydd y Panel Iechyd (adroddir cofnodion y panel yn ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy gofnodion y Grŵp Prosiect), Grwpiau Prosiect, y Grŵp Defnyddwyr Cleifion Allanol. Cyfeirir hefyd at feysydd lle cyflawnwyd gwelliannau, rheoli'r broses o ddraenio'r frest er enghraifft, a chael gwared ar y Cofnod Therapi Gwrthgeulydd (Llyfr Melyn) yn raddol yn dilyn asesiad risg. Hefyd, ni fu unrhyw fethiannau i gydymffurfio â deddfwriaeth yn ystod y

18 mis diwethaf. Rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth felly ei bod yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel.

S15.2. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu gweithdrefnau priodol a llawer o strwythurau i sicrhau bod gan gleifion fynediad at y system gwynion ac y gwrandewir ar eu hadborth. Fodd bynnag, prin iawn yw'r dystiolaeth y sicrheir y Bwrdd a phrin yw'r dystiolaeth o gyfleoedd i roi adborth. O ran gweithredu yn sgil cwynion y claf, cynigir adroddiad Cronfa Risg Cymru fel tystiolaeth ond nid yw'n nodi sut y gweithredir yn sgil cwynion. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol felly.

S15.3. Darparwyd gwybodaeth dda am hyfforddiant yn gyffredinol a rhywfaint hefyd am yr iaith Gymraeg ond nid yw'n eglur a yw'r gweithgareddau'n mynd i'r afael â'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol. Y mecanweithiau lleol ar gyfer rhoi adborth yn ôl i gleifion yw'r Cyngorau Iechyd Cymuned, grwpiau defnyddwyr sy'n cyfarfod mewn adrannau cleifion allanol. Defnyddir adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth hefyd i ddarparu adborth ac mae'n amlinellu newidiadau a wnaed o ganlyniad i gwynion. Rydym wedi asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gan nad oes digon o dystiolaeth o waith gwerthuso neu feincnodi'n arwain at welliant parhaus.

S15.4. Fe wnaed gwelliannau yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac maent yn cynnwys diweddarau taflenni cwynion ac adolygiad o'r Adran Gwynion. Mae'r swyddog cyfathrebu'n hyrwyddo adborth drwy'r cyfryngau a chyhoeddiadau allanol/mewnol. O ran y cwestiwn a yw cleifion yn ymwybodol o gymorth Cyngorau Iechyd Cymuned, mae ganddynt bresenoldeb ar wardiau ond nid yw'n hysbys pa mor effeithiol yw posteri mewn adrannau cleifion allanol. Mae enghreifftiau o gamau a gymerwyd yn dilyn pryderon a godwyd yn cynnwys: hyfforddiant pellach i aelodau'r staff ar ofal i gleifion sy'n cyrraedd diwedd eu bywydau, cynllun gweithredu i fonitro trosglwyddiadau cleifion diabetig yn y Gyfarwyddiaeth Feddygol a phrosesau glanhau loceri ar lefel wardiau. Yn gyffredinol, bodlonir y safon hon ledled yr Ymddiriedolaeth ac rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 16

Mae gan gyrrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i roi gwybod am ddigwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau;*
- ch. sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2. Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, methiannau agos a pheryglon yn ogystal â pholisi chwythu'r chwiban. Nodir tueddiadau drwy'r Adroddiad Cwynion, Risg ac Ymglyfreitha cyfunol bob chwarter. Mae'r Bwrdd yn derbyn Adroddiad Rheoli Risg blynyddol sy'n nodi cynnydd yn erbyn targedau perfformiad allweddol. Mae bob aelod o'r Tîm Rheoli Risg wedi derbyn hyfforddiant ar y system Datix ar gyfer casglu data. Y Cyfarwyddwr Nyrsio sy'n gyfrifol am reoli risg ac am sicrhau bod adroddiadau'n cael eu hysgrifennu fel sy'n briodol. Mae adroddiadau rheolaidd o gynnydd yn erbyn bwletinâu'r Asiantaeth

Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Risg Clinigol ond nid oes tystiolaeth o'r ffordd y sicrheir y Bwrdd. Rydym yn teimlo mai **Datblygol** yw asesiad yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol felly.

S16.3. Mae polisi ar gamau i'w cymryd os oes digwyddiad critigol, sy'n seiliedig ar y protocolau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau Diogelwch Cleifion a argymhellir gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion. Mae rhaglen rheoli risg gynhwysfawr wedi'i sefydlu sy'n cynnwys sut i hysbysu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion a chyrrff eraill am ddigwyddiadau. Mae'r Cyfarwyddiaethau'n cynnwys aelod o'r tîm rheoli risg i'w cynorthwyo i nodi, asesu a monitro risgiau. Defnyddir mewnwyd yr Ymddiriedolaeth yn helaeth i raeadru'r hyn a ddysgwyd yn lleol a chenedlaethol i bob aelod o'r staff. Hefyd, cyhoeddir cylchlythyr gan y tîm rheoli risg bob chwarter. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Meddygol yw dosbarthu hysbysiadau a rhybuddion. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Unwaith eto, nid oedd tystiolaeth gadarn o waith gwerthuso a meincnodi'n arwain at welliant parhaus yn amlwg.

S16.4. Roedd 1197 o ddigwyddiadau diogelwch cleifion y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn 2006, sy'n cyfateb i 30% o ddigwyddiadau andwyol i gleifion a ddisgwylir. Mae newidiadau a roddwyd ar waith yn dilyn digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn cynnwys: creu llwybr gofal ar ôl codwm, rheoli cleifion â draeniau'r frest, rheoli plant sydd angen gofal dwys. Hysbysir y cleifion am y newidiadau hyn a newidiadau eraill trwy safle mewnwyd yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor Iechyd Cymuned sy'n gynrychiolwyr ar y Pwyllgor Cwynion. Ymddiriedolaeth Sir Gaerfyrddin oedd y gyntaf yng Nghymru i ymateb i rybudd diogelwch cleifion 'Dwylo Glân' yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion. Amlygwyd methiant i gydymffurfio â hysbysiad yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ar diwbiau gastrig-drwynol gan yr Ymddiriedolaeth ac mae'n cadarnhau y bydd hyn yn cael ei fwydo yn ôl drwy'r strwythur nyrsio. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 17

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrrff eraill.

S17.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2. Sicrheir y Bwrdd o gydymffurfiaid â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cenedlaethol trwy is-bwyllgor i'r Bwrdd, sy'n ystyried pob mater sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant, ac yn cyfarfod bod dau neu dri mis. Sefydlwyd nifer o fentrau'n ymwneud ag Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, a'r Cyfarwyddwr Nyrsio sy'n arwain y gwaith. Nid yw'n ymddangos bod gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed mor glir a chadarn a'r rhai ar gyfer Amddiffyn Plant. Mae tystiolaeth dda o gynlluniau strategol ac arferion da ledled y sefydliad, ond dim digon i awgrymu gwelliant parhaus. Rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol felly.

S17.3. Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen hyfforddiant sydd wedi'i chynllunio'n dda ac yn adlewyrchu'r gofynion rhyngasiantaeth ar gyfer Amddiffyn plant. Mae arferion cadarn a dull cynhwysfawr o ymdrin â materion Amddiffyn Plant. Mae llinellau aelodau staff cyfrifol ac adrodd yn eglur ac effeithiol. Unwaith eto, o ran Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, mae'n ymddangos bod y gofynion yn llai eglur ynghylch rhai materion na'r rhai ar gyfer Amddiffyn Plant. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant a ddarperir yn werthfawr, yn berthnasol ac wedi'i wreiddio mewn cydweithrediad a phartneriaethau rhyngasiantaeth. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol felly.

S17.4. Roedd 13 o ddigwyddiadau oedd yn gysylltiedig ag Amddiffyn Plant yn ystod y 12. Cafodd yr 13 achos hwn eu monitro'n gynhwysfawr ac mae'r gwaith wedi arwain at welliannau i arferion gwaith a mesurau diogelwch gwell. Nid oes unrhyw wybodaeth o ran pryd y cafodd archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed eu harchwilio ddiwethaf na beth oedd y canlyniadau - er bod yr Ymddiriedolaeth yn nodi mai'r adran Adnoddau Dynol sy'n eu cynnal. Yn gyffredinol, mae cydnabyddiaeth dda o faterion allweddol a

dewisiadau i fynd i'r afael â nhw ond diffyg o ran bodloni'r safon yn gyson ledled y sefydliad, felly rydym yn asesu mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 18

Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S18.2. Rydym wedi asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol gan nad oes tystiolaeth glir o sicrwydd gan y Bwrdd. Mae Cynllun Digwyddiadau Mawr 2007 yn parhau i fod ar ffurf drafft ac mae'n cael ei ddiwygio'n unol â Chanllawiau Cynllunio Brys Llywodraeth Cynulliad Cymru ond nid oes digon o dystiolaeth o welliant parhaus i gytuno â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth.

S18.3. Rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae ymarfer Helygen y Gaeaf wedi bod yn bwysig yn lleol a chenedlaethol. Mae'r Cynlluniau Digwyddiadau Mawr wedi'u paratoi'n dda. Mae'r safon yn gyffredinol uchel, er bod angen datblygu rhai meysydd ac i ymateb i hyn, cyflawnwyd rhywfaint o waith adfer gan fodloni aseswr Stadau Iechyd Cymru ac mae hyn yn dangos gwelliant.

S18.4. Mae'r cynlluniau pandemig fflw a Chynlluniau Digwyddiadau Mawr yn ymddangos yn drylwyr. Mae tystiolaeth yn dangos bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau a bod y gwersi hyn yn cael eu troi'n drefn arferol. Mae enghreifftiau'n cynnwys diweddarau rhifau ffôn mewnol, diwygio cardiau gweithredu, a threfniadau digwyddiadau rheilffordd a pharhad busnes. Rydym yn cytuno felly gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. *bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b. *bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. *bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a*
- ch. *bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2. Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi Dyfeisiadau Meddygol a Grŵp Cyngori ar Ddyfeisiadau Meddygol sy'n cyfarfod bob chwarter. Y Prif Fferyllydd sy'n arwain materion rheoli meddyginiaethau. Adroddir am bob risg sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau i Bwyllgor Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd. Mae llawer o weithdrefnau a pholisïau eraill yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau ond nid yw'n eglur os yw Strategaeth Llywodraethu Clinigol/Rhagoriaeth Glinigol y Bwrdd yn cyfeirio ato. Adran Gwasanaethau Sterileiddio'r Ymddiriedolaeth oedd y gyntaf yng Nghymru i dderbyn achrediad ISO 9001 ac ISO 13485 gan gydymffurfio â Chyfarwydddeb CE 93 / 42. Y Dirprwy Brif Weithredwr yw Hyrwyddwr Gwastraff yr Ymddiriedolaeth ac mae'n cadeirio'r Grŵp Ynni Gwastraff a Rheoli Amgylcheddol. Rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol gan fod angen tystiolaeth fwy sylweddol o welliant parhaus i gyfiawnhau aeddfedrwydd Ymarferol.

S19.3. Mae contractau cyflogaeth aelodau'r staff yn datgan bod aelodau'r staff yn gyfrifol am gyfyngu eu gweithrediadau i'r rhai y maent yn teimlo'n gymwys i'w cyflawni h.y. ni allant ddefnyddio unrhyw ddyfeisiadau nad ydynt yn teimlo'n gymwys i'w defnyddio. Mae Polisi Dyfeisiadau Meddygol ar waith sy'n amlinellu sut mae dyfeisiadau meddygol yn cael eu dethol, eu cofnodi a'u cynnal a'u cadw, ond nid oes gan yr Ymddiriedolaeth bolisi Orlhain Offer. Mae gan yr Ymddiriedolaeth weithdrefnau ar waith a'r gallu i fonitro ac adolygu materion dadheintio. Cynhelir archwiliadau allanol o ansawdd a diogelwch meddyginiaethau. Hefyd, amlinellir

gwaith rheoli gwastraff yn y rhaglen ymsefydlu i bob gweithiwr cyflogedig newydd. Fodd bynnag, mae llawer o le i wella o ran y pwnc hwn ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod hyn yn ei Chynllun Gwella. Gellir gweld bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol ac mae tystiolaeth bod y safon yn cael ei bodloni ledled y sefydliad, felly rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S19.4. Adroddwyd am gyfanswm o 60 o ddigwyddiadau'n ymwneud â dyfeisiadau meddygol yn 2006, ond ni raddiwyd yr un ohonynt ar lefel tri (canolradd neu drychinebus) neu uwch. Un newid penodol a wnaed o ganlyniad oedd asesiad risg o ddraeniau'r frest, a'r canlyniad yw bod draeniadau'r frest yn cael eu perfformio mewn dwy ardal benodol yn unig bellach. O ran dadheintio, roedd cyfradd anghydfurfio o 0.2% ar hambyrddau theatr. Mae lefel isel o ddigwyddiadau'n ymwneud â chyffuriau a adroddir amdanynt. Ychydig iawn a ddywedir yn ymateb yr Ymddiriedolaeth i ddigwyddiadau'n ymwneud â rheoli gwastraff, gan nad oedd unrhyw ddigwyddiadau a gofnodwyd yn ffurfiol yn ystod y 12 mis diwethaf, er bod ymateb yr Ymddiriedolaeth yn nodi y diweddarir systemau'n barhaus. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos y bodlonir y safon hon yn dda ledled y sefydliad ond dim yn ddigon da o ran gwelliant parhaus. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr a **Datblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S20.2. Mae Cynrychiolydd Staff ar y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd staff penodol a arweinir ac a drefnir gan aelodau'r Bwrdd. Mae pwyllgor Adnoddau Dynol, sy'n is-grŵp o'r Bwrdd sy'n gweithredu fel fforwm corfforaethol ar gyfer trafod, dadansoddi ac adrodd ar bob agwedd ar waith Rheoli Adnoddau Dynol bob chwarter. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad ac rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S20.3. Rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhy feirniadol o'i hun ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac wedi'i hasesu'n **Ymarferol**. Darperir nifer o enghreifftiau o brosesau da ar gyfer cynnwys aelodau'r staff a gynhelir ledled yr Ymddiriedolaeth, yr Is-grŵp Rheoli Absenoldeb er enghraifft, lle anogwyd cynrychiolwyr y staff i adolygu dogfennau sy'n bodoli eisoes ar reoli salwch ac absenoldeb. O ganlyniad i'w cyfraniad, fe wnaed awgrymiadau i'w hadolygu a gafodd eu cynnwys wedyn mewn canllaw diwygiedig ac sydd wedi'u mabwysiadu ledled y sefydliad ers hynny. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol a'r arferion gorau diweddaraf trwy sesiynau briffio rheolaidd gyda chyfreithwyr cyflogaeth, ymchwil ac ati.

S20.4. Mae amrywiaeth o fentrau a thystiolaeth o bethau megis cyfarfod Adolygiad o Berfformiad y Gyfarwyddiaeth sy'n sicrhau y cynhelir adolygiad ac y cynigir argymhellion ar gyfer newidiadau yn ei sgil. Dylai sefydliadau proffesiynol fod yn annog datblygiad proffesiynol parhaus ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth, ac mae'n ymddangos ei bod yn cynnig cefnogaeth briodol. Mae'n ymddangos bod proses briodol o bennu amcanion a thargedau 'o'r brig i lawr', ac mae cyfleoedd i aelodau'r staff gynnig adborth. Sefydlwyd dangosyddion anuniongyrchol fel absenoldeb, absenoldeb cwynion cymharol ac achosion aflonyddu sy'n cefnogi'r safbwynt o achrediad allanol (Nod Siarter, Buddsoddwyr mewn Pobl a Meincnodi'r System Gwybodaeth Iechyd Cymharol) sy'n darparu sicrwydd o arferion Adnoddau Dynol cadarn ledled yr Ymddiriedolaeth. Roedd yr adborth gan grwpiau ffocws aelodau'r staff yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol. Roedd y fenter 'amser pryddau a ddiogelwyd' a'r system 'hambwrdd coch' yn fentrau a sefydlwyd gan aelodau'r staff. Roedd aelodau'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i gynnig newidiadau i gynorthwyo i wella'r system ac roedd aelodau'r staff Therapi'n teimlo eu bod wedi'u hymrymuso yn eu maes eu hunain. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b. *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer*

- ac ymddygiad proffesiynol; ac*
c. *yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S21.2. Sicrheir y Bwrdd o ran cyflogaeth, cymwysterau a chofrestru mewn nifer o ffyrdd ac archwilir archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer holl aelodau'r staff a phrosesau cyflogaeth yn fewnol gan yr Adran Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth eglur yn ymateb yr Ymddiriedolaeth bod y Bwrdd wedi sefydlu'r mecanweithiau sicrhau gofynnol. O ran sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cydymffurfio â'r codau ymddygiad, nid oes unrhyw dystiolaeth o adroddiadau i'r Bwrdd, ac eithrio achosion o fethu â chydymffurfio. Cyflawnir gwaith monitro grwpiau lleiafrifol drwy'r trefniadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth strwythurol yn yr Ymddiriedolaeth. Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd i Grŵp Llywio Gweithredol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol a chyflwynir adroddiad bob chwarter i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol. Rydym wedi asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol gan mai prin yw'r dystiolaeth o welliant parhaus ledled y sefydliad.

S21.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu gweithdrefnau rhesymol ar gyfer sicrhau bod aelodau'r staff wedi'u cofrestru'n briodol gyda chyrrff proffesiynol, a chymerir camau priodol yn sgil unrhyw drafferthion. Sefydlwyd polisi Chwythu'r Chwiban cynhwysfawr a defnyddir dull 'coeden benderfyniadau' am ddigwyddiadau'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion i nodi unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Cesglir data am ethnigrwydd gan ddefnyddio'r set ddata tarddiad ethnig. Mae hyn yn dangos tystiolaeth o welliant parhaus ac rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S21.4. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sgrinio cyn cyflogi. Rhoddir hyfforddiant priodol ychwanegol pan fo mater yn ymwneud â chymhwysedd clinigol. Bu achosion o fethu â chydymffurfio â chodau ymarfer yn ystod y 12 mis diwethaf ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau yr ymdriniwyd â phob achos yn unol â'r polisi priodol. Gofynnir am gyngor gan Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG a'r

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol ar y ffordd orau o gynnwys grwpiau lleiafrifol. Prin yw'r gweithgarwch rhagweithiol o fewn yr Ymddiriedolaeth fodd bynnag. Rydym yn asesu mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth, trwy fecanweithiau fel y Polisi Recriwtio a Dethol, y Polisi Sgiliau Gwybodaeth, y Polisi Perfformiad a Datblygiad Gweithwyr Cyflogedig, y Cynllun Hyfforddi a'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi bod mesurau ar waith i sicrhau y nodir anghenion hyfforddi yn rheolaidd, yn ogystal â sicrhau bod y cymwysterau priodol gan aelodau'r staff wrth eu penodi. Fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth arwyddocaol o welliant parhaus ledled y sefydliad felly rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S22.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau gwerthuso a rheoli perfformiad cadarn ynghyd â mesurau arfer da ar gyfer datblygu'r staff, yn enwedig yn y Rhaglenni Hyfforddi (ee y rhaglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol) a'r dadansoddiad GAP sydd ag argymhellion eglur a chyfrifoldebau ar gyfer camau dilynol. Rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond dylai'r Cynlluniau Gwella eu codi i'r lefel nesaf ar ôl iddynt gael eu sefydlu.

S22.4. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf a gododd yn sgil materion cymhwysedd. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio porth y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'n llawn eto gan na chymhathwyd pob aelod o'r staff. Sefydlwyd proses Ymsefydlu Corfforaethol a hysbysir aelodau'r staff am sut i gael

gafael ar wybodaeth am fathau eraill o hyfforddiant yn yr hyfforddiant ymsefydlu hwn. Dywedodd aelodau'r staff wrthym eu bod yn derbyn cymorth da'n gyffredinol o ran datblygiad proffesiynol parhaus a datblygiad galwedigaethol. Fodd bynnag, un broblem fawr yw cael yr amser yn rhydd o'u swyddi i fynychu cyrsiau hyfforddi. Roedd gan bawb y siaradom ni â hwy gynllun datblygu personol neu'n disgwyl derbyn un yn fuan. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, gan fod tystiolaeth dda i gefnogi gwelliant parhaus.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. *brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b. *raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr a **Datblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S23.2. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau partneriaeth ymarferol iawn gyda chynrychiolwyr y staff yn cynnwys y Fforwm Partneriaeth Staff sy'n codi materion sy'n achosi pryder ar ran aelodau'r staff. Mae Cadeirydd Cangen Cynrychiolwyr y Staff yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban, Bwlio ac Aflonyddu ac Achwyniad wedi'u sefydlu hefyd. Yn dilyn canlyniadau'r Arolwg Gweithredol o Agwedd Staff, datblygwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth ac mae'n cael ei roi ar waith ac yn cael ei arwain gan y Grŵp Recriwtio a Chadw. Rydym yn cytuno felly gyda hunanasesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S23.3. Rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae nifer o ffyrdd y cynorthwyr aelodau'r staff i godi pryderon am unrhyw agwedd ar waith megis trwy eu cynrychiolwyr staff trefniadol ac fel rhan o'u hadolygiadau perfformiad. Mae gofynion cyfrinachedd wedi'u nodi yn y contractau cyflogaeth ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfaddef nad yw'n bosibl bod yn gwbl gyfrinachol ar adegau. Pan fo hyn yn wir, cyfyngir y

wybodaeth i'r rhai sy'n rhan o'r broses. Er mwyn dangos gwerthfawrogiad i'w staff, rhoddir anrhegion i aelodau'r staff sydd wedi gwasanaethu am amser maith, ar ôl cyfnodau o 10 ac 20 mlynedd er enghraifft. Hefyd, mae'r Prif Weithredwr yn anfon llythyrau a rhoddir erthyglau yng nghylchlythyr yr Ymddiriedolaeth, 'Trustcall', i adlewyrchu'r llwyddiannau hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ennill statws Buddsoddwr mewn Pobl ac fe wnaeth nyrsys bleidleisio'r Ymddiriedolaeth ymhlith y 100 lle gorau i weithio yn y 'Nursing Times'.

S23.4. Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi y codwyd sawl mater o bryder cyffredinol gan unigolion yn ystod y 12 mis diwethaf ac yr aethpwyd i'r afael â hwy fesul achos yn unol â'r polisi priodol. Rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr a byddai lefel aeddfedrwydd uwch wedi cael ei hystyried pe rhoddwyd mwy o fanylion am ymateb yr Ymddiriedolaeth i bryderon a godwyd.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. *fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b. *sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel.

S24.2. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cychwyn nifer o fentrau mewn partneriaeth â sefydliadau gofal iechyd a sefydliadau eraill. Maent yn cynnwys: Adolygiad Gwasanaethau Cymunedol ac adolygiad Cynllunio'r Gweithlu - corfforaethol a chymunedol. Mae'r adolygiadau hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin. Hefyd, bu penodiadau ar y cyd rhwng y Cyngor Sir a'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect peilot i gyflwyno Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Mae hyn yn dystiolaeth dda o welliant parhaus ac felly rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol.

S24.3. Mae'r ateb a roddir yn debyg iawn i'r un yn yr ymateb corfforaethol ac felly nid yw'n dangos digon o dystiolaeth o welliant parhaus ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Rydym wedi asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol felly.

S24.4. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhestru nifer o enghreifftiau da o newidiadau a wnaed i brosesau gwaith gyda chydweithwyr y tu allan i faes gofal iechyd. Mae wrthi'n penodi Arweinydd Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Integredig. Bydd yr unigolyn hwn yn datblygu'r agenda foderneiddio ar gyfer yr uchod. Hefyd, penodwyd Rheolwr i'r Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol yn ddiweddar a'i swyddogaeth fydd ail-gynllunio'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol ledled y gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y'i darperir fel un gwasanaeth integredig. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn yn gofyn am enghreifftiau o welliannau a gyflawnwyd ond mae'r ateb yn cyfeirio at y dyfodol. Rydym yn teimlo na atebwyd y cwestiwn yn gywir ac felly rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S25.2. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Ymddiriedolaeth wedi nodi camau sy'n darparu atebion penodol i ddwy ran y cwestiwn. Mae'r rhan gyntaf yn cael ei hateb yn dda a sicrheir y Bwrdd trwy gyfarfodydd Bwrdd Prosiect y Strategaeth Gwybodaeth a TG bob dau fis, adroddiadau i'r Bwrdd gan gyfleusterau Archwilio a hefyd trwy'r Rheolwr Gwybodaeth a TG sy'n adrodd yn uniongyrchol i aelod o'r Bwrdd. Mae'n anoddach dehongli'r ail ran; nid yw'n eglur sut mae'r Bwrdd yn nodi a defnyddio gwybodaeth briodol yn ymwybodol i lywio a chynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau. Rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol felly.

S25.3. Atebir rhan gyntaf y cwestiwn yn weddol gynhwysfawr a darperir sgiliau TG sylfaenol i bawb trwy ECDL. Ymdrinnir â gofynion TG mwy penodol ar sail un i un neu mewn grwpiau o aelodau'r staff sydd angen dysgu am bwnc penodol ee roedd pob podiatregydd wedi derbyn gliwiaduron ac yn derbyn sesiynau hyfforddi dwy awr o hyd ar eu defnyddio. Cynhelir sesiynau hyfforddi penodol ar gyfer meddygon iau ddwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, ni atebwyd ail ran y cwestiwn o gwbl ac nid oes unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â'r TGCh sydd ar gael i aelodau'r staff yn y gweithle. O ganlyniad, rydym wedi asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S25.4. Mae cysondeb a didwylledd y wybodaeth sy'n sail i ofal cleifion yn cael eu harchwilio mewn nifer o ffyrdd: prosesau ansawdd data, dilysu rhestrau aros, dilysu wardiau, cysoni trwybwn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Demograffeg Cleifion, dilysu clinigau cleifion allanol. Mae'r Polisi Ansawdd Data'n sicrhau y gellir dehongli'r holl ddata a gesglir ar systemau electronig mewn ffordd ystyrlon. Mae aelodau staff sy'n cymryd rhan yn y broses mewngofnodi data'n derbyn yr hyfforddiant priodol o ran Polisiâu Ansawdd Data a Chyfrinachedd Data'r Ymddiriedolaeth. Cyflawnir gwaith monitro'n fisol er mwyn sicrhau bod y broses hyfforddi wedi mynd i'r afael â'r problemau penodol a'u bod wedi'u datrys. Cynhyrchir a defnyddir adroddiad ansawdd data (NACE) i amlygu a chywiro unrhyw anghysondebau yr ydym wedi dod o hyd iddynt ynghylch yr Ymddiriedolaeth. Rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth felly ei bod yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:

- a. bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddarar'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr a **Datblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S26.2. Darparodd yr Ymddiriedolaeth ateb cynhwysfawr i'r safon hon, gan restru ei strategaethau, ei pholisïau a'i gweithdrefnau, yn cynnwys: Strategaeth Rheoli Cofnodion sy'n diffinio bod y Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr yn bersonol atebol am reoli cofnodion. Mae'r polisiâu a sefydlwyd yn cynnwys: y Polisi Cadw Cofnodion Clinigol sy'n rhoi diffiniad eglur o Gofnod Iechyd i aelodau'r staff - ei bwrpas, ei nodweddion allweddol a sut y dylid cyflawni cofnodion a'r Polisi Storio, Cadw a Dinistrio sy'n sicrhau bod adrannau'n cydymffurfio â therfynau amser y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac y dylid cadw dogfennau'n ymwneud â hwy. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth sy'n dangos bod y polisiâu hyn yn cael eu harchwilio a/neu'n cael eu harchwilio'n ddirybudd i'n galluogi i gytuno â sgôr yr Ymddiriedolaeth. Rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol felly.

S26.3. Hysbysir pob aelod o'r staff am bwysigrwydd rheoli cofnodion yn dda trwy fynychu'r Rhaglen Ymsefydlu Corfforaethol deuddydd sy'n trafod materion fel rheoli risg, cyfrinachedd, diogelu data a rhyddid gwybodaeth. Ni chaniateir i aelodau'r staff gychwyn eu swyddi tan eu bod wedi mynychu'r Rhaglen hon. Cyfrifoldeb eu Huwch Glinigwyr penodol yw monitro meddygon iau wedyn. Hysbysir aelodau'r staff Cofnodion Iechyd am bwysigrwydd cymhennu a disgwylir iddynt fynychu Hyfforddiant Cofnodion Iechyd ac fe'u diweddarir yn flynyddol am unrhyw ychwanegiadau newydd. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S26.4. Mae newidiadau a wnaed yn ystod y 18 mis diwethaf o ganlyniad i archwilio cofnodion yn cynnwys: creu Adran Cofnodion Dyblyg sydd â'r pwrpas o gael gwared ar bob dyblygiad a gynhyrchwyd cynt. Nodwyd 9000 i gychwyn ac ymdriniwyd â 6000 hyd yn hyn. Yn dilyn ymweliad achredu allanol gan CASPE, cytunwyd y dylai holl aelodau'r staff gael mynediad at Bolisiâu a Gweithdrefnau'r Cofnodion Iechyd mewn ymdrech i sicrhau gwaith rheoli cofnodion gwell trwy sicrhau bod aelodau'r staff yn dilyn gweithdrefnau eglur a chryno. Mae dogfennau wrthi'n cael eu hailgynllunio ym mhob un o'r gwasanaethau therapi er mwyn gwella cydymffurfiad â'r polisi cadw cofnodion clinigol. Gan fod 3000 o gofnodion dyblyg yn parhau i fodoli yn yr Ymddiriedolaeth mae'n rhaid i ni asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ar hyn o bryd.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi eu sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a clinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel.

S27.2. Mae strwythurau llywodraethu a threfniadau adrodd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys 16 aelod o'r Bwrdd, ac mae 12 ohonynt yn gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol. Llywodraethir pwerau'r Bwrdd gan ei Orchmynion Sefydlog a'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Mae chwe is-bwyllgor sy'n atebol i'r Bwrdd: Archwilio, Llywodraethu Clinigol, Cwynion, Adnoddau Dynol, Taliadau Cydnabyddiaeth, Amddiffyn Plant. Yn ariannol, cymeradwyir Gweithdrefnau Ariannol yr Ymddiriedolaeth gan y Pwyllgor Archwilio a pharatoir adroddiadau i'r Bwrdd bob mis. Mae'r Bwrdd yn cefnogi didwylledd, uniondeb ac atebolrwydd yn ymarferol trwy God Ymddygiad yr Ymddiriedolaeth, Polisi Chwythu'r Chwiban a Pholisi Atal Twyll a Llygredd. Rheolir risgiau drwy'r Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad Rheoli Risg blynyddol sy'n nodi targedau perfformiad allweddol a chynnydd yn erbyn y targedau. Mae'r Fforwm Bartneriaeth (sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol) yn cynorthwyo i integreiddio trefniadau llywodraethu clinigol a chorfforaethol ledled y gymuned iechyd a'r rhwydweithiau clinigol. Mae'r ateb a ddarparwyd yn gynhwysfawr iawn ac yn cynnwys tystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad ac enghreifftiau o fynd i'r afael â materion allweddol. Fodd bynnag, ac eithrio asesiad risg, ychydig sydd wedi'i gynnwys i awgrymu gwelliant parhaus, ac felly rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ledled y lefel Gorfforaethol.

S27.3. Nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn mynd i'r afael â'r ffordd yr hysbysir aelodau'r staff am drefniadau hysbysu am lywodraethu na sut maent yn cael eu cynnwys yn y broses hon. Mae enghreifftiau o aelodau'r staff yn cael eu briffio ar drefniadau rheoli ariannol yn cynnwys y Fforwm Partneriaeth Staff, adroddiadau misol i Gyfarwyddiaethau unigol a chylchlythyr yr Ymddiriedolaeth, 'Trustcall'. Prin yw'r dystiolaeth i awgrymu y gall aelodau'r staff gyfrannu a phrin yw'r wybodaeth a ddarperir i sicrhau bod y sgiliau gan reolwyr i gefnogi aelodau'r staff yn lleol. Mae'n nodi bod eu manylebau swydd yn amlygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth Raglen Arweinyddiaeth Glinigol, ond ychydig iawn arall sy'n cael ei grybwyll. Mae aelodau'r tîm Rheoli Risg yn cefnogi Cyfarwyddiaethau unigol i nodi, asesu a monitro risgiau. Maent yn derbyn adroddiadau rheolaidd yn nodi tueddiadau ac yn darparu cynlluniau gweithredu yn sgil digwyddiadau. Defnyddir system Datix i fewngofnodi data ar ddigwyddiadau, cwynion a hawliadau. Mae enghreifftiau o aelodau'r staff yn gweithio ledled y gymuned iechyd a'r rhwydweithiau clinigol yn cynnwys menter Canllaw a'r fenter Iechyd Rhywiol. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gan mai prin yw'r dystiolaeth i awgrymu y cyflawnir gwaith gwerthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus, er bod enghreifftiau da o gamau a gymerir i fynd i'r afael â'r materion allweddol.

S27.4. Rydym yn asesu mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Ni atebwyd y cwestiynau am reoli ariannol a materion cynyddol yn gynhwysfawr ac roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gryno iawn ac roedd diffyg tystiolaeth. Adolygiad Canllaw yw'r enghraifft a roddir bod profiad y defnyddiwr wedi gwella yn sgil trefniadau llywodraethu integredig. Mae Polisi Adrodd am Ddigwyddiadau, Methiannau Agos a Pheryglon yr Ymddiriedolaeth yn nodi cyfrifoldeb rheolwyr o roi adborth i aelodau'r staff ar bob digwyddiad y rhoddir gwybod amdano. Hefyd, mae'r Cylchlythyr Rheoli Risg yn nodi tueddiadau a newidiadau i arferion o ganlyniad i adrodd am ddigwyddiadau. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar faterion clinigol arwyddocaol fel effaith llawdriniaeth a ohiriwyd, derbyniadau meddygol brys ac ati. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar waith yn ogystal â Pholisi Atal Twyll a Llygredd. Ni allwn gytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth, gan mai prin yw'r dystiolaeth y bodlonir y safon ledled y sefydliad.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel.

S28.2. Mae Strategaeth Llywodraethu Clinigol yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygiad parhaus y systemau a'r prosesau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod egwyddorion Llywodraethu Clinigol wedi'u sefydlu ledled yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, diwygiwyd a chymeradwywyd y Strategaeth hon gan Dîm Rheoli'r Ymddiriedolaeth yn ddiweddar. Mae tri Phwyllgor sy'n darparu'r prif fframwaith ar gyfer monitro cydymffurfriad a chynnydd yn erbyn strategaethau, polisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth a sicrhau ansawdd y gofal clinigol. Y Pwyllgor Gwella Ansawdd Clinigol, y Pwyllgor Monitro Perfformiad a'r Pwyllgor Rheoli Risg Clinigol yw'r rhain, ac mae pob un yn adrodd i'r Bwrdd. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S28.3. Mae cyfleoedd ffurfiol sylweddol yn bodoli i gynnwys aelodau'r staff yn y gwaith o ddatblygu a monitro systemau llywodraethu clinigol a sut maent yn berthnasol i'r strategaethau, y polisïau a'r gweithdrefnau hyn. Mae'r Grwpiau Llywodraethu Clinigol, sydd ag uwch reolwyr/clinigwyr yn aelodau yn bwysig yn ogystal â'r ffaith bod y Penaethiaid Adrannau sydd ar y Bwrdd yn adrodd yn ôl i'w timau. Mae cylchlythyrau fel *Medication Event* yn addysgiadol. Nid yw'n gwbl eglur a ddefnyddir prosesau meincnodi ond yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod yr arferion yn gadarn. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S28.4. Adlewyrchir yr arferion cadarn ar y lefel gorfforaethol yma ar lefel profiad y defnyddiwr. Mae'r broses hysbysu am ddigwyddiadau wedi'i hen sefydlu ac mae'r Cyfarwyddiaethau wedi nodi aelodau staff allweddol sydd wedi derbyn hyfforddiant Dadansoddi Rhesymau Craidd yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau'n lleol. Mae'r Cyfarwyddiaethau'n datblygu proffiliau risg yn seiliedig ar asesiadau risg lleol ac mae'r rhain yn cael eu monitro gan dimau llywodraethu'r Cyfarwyddiaethau. Mae'r Grŵp Adolygu Camgymeriadau Meddyginiaeth yn enghraifft ragorol o'r ffordd y defnyddir data o roi gwybod am ddigwyddiadau i wella arferion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn brysur a rhagweithiol o ran datblygu a sefydlu llwybrau gofal integredig. Mae 32 o Lwybrau Gofal Integredig yn Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd a chynhelir cronfa ddata o gynnydd o ran datblygiad Lwybrau Gofal Integredig ar safle mewnwyd yr Ymddiriedolaeth. Ers mis Ebrill 2006, sefydlwyd saith o lwybrau gofal integredig newydd, mae tri wrthi'n cael eu profi, mae 12 yn cael eu datblygu ac mae 13 yn cael eu defnyddio. Lanswyd tri tuag at ddiwedd y llynedd. Darparwyd tystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ac rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a. *drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. *drwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S29.2. Er mwyn cael cyngor iechyd cyhoeddus, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfeirio at swyddfa Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC) Cymru yn Sir Gaerfyrddin, ac mae timau adnoddau'r Gwasanaeth yn cynnwys y Tîm Plant a Phobl Ifanc, y Tîm Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol, y Tîm Dadansoddi Gwybodaeth Iechyd ac ati. Lleolir dau Labordy Microbioleg GICC Cymru yn yr Ymddiriedolaeth ac mae eu huwch aelodau'n gweithio'n agos gyda Chyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymorth Clinigol yr Ymddiriedolaeth. O ran cytundebau partneriaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan lawn mewn datblygu, gweithredu a gwerthuso'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Deuluoedd sy'n arwain ar ran yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn aelod gweithredol o Fforwm Imiwneiddio a Brechu Dyfed Powys. Hefyd, mae Therapyddion Galwedigaethol a gyflogwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau trefniadau gwaith integredig yn raddol. Mae'r enghreifftiau hyn a ddarparwyd yn dangos bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol, er nad oes unrhyw dystiolaeth o welliant parhaus na gwaith gwerthuso. Rydym o'r farn mai **Datblygol** yw asesiad yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol felly.

S29.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyfateb canlyniadau ei asesiad cynhwysfawr o anghenion i'r blaenoriaethau a amlygwyd yn y Strategaeth Gymunedol a'r agenda polisi cenedlaethol i ddatblygu camau eglur yn y ddau faes. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i ganolbwyntio ar feysydd sy'n bwysig i bobl a chymunedau o ran gwella iechyd a lles. O ran y cwestiwn sy'n gofyn a yw'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei bod yn defnyddio'r cyngor a dderbynnir ar iechyd y cyhoedd, mae ei ateb yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwasanaeth Microbioleg ond nid yw'n nodi sut y defnyddir y wybodaeth i gynhyrchu canllawiau ar reoli achosion na sut maent yn defnyddio'r cyngor mewn gwirionedd. Rydym yn teimlo felly mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S29.4. Cymerodd y cleifion ran mewn ymarfer ymgynghori fel unigolion ac fel grwpiau gan eu galluogi i gyfrannu at y broses Iechyd, Gofal Cymdeithas a Lles. Hefyd, dangoswyd strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ddrafft i lawer o drigolion y Sir trwy ymarfer ymgynghori tri mis. Rydym yn cytuno gyda hunanasesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S30.2. Mae sawl enghraifft o arferion da a datblygiad parhaus o'r gwaith sydd â'r nod o ennill dyfarniad Aur y Safonau Iechyd Corfforaethol yr hydref hwn (2007). Mae'r rhain yn cynnwys: gweithio mewn partneriaeth gyda chomisiynwyr a darparwyr lleol i reoli rhaglenni atal afiechydon a hybu iechyd sydd wedi cynnwys arloesedd a'r bwriad o sefydlu strategaethau newydd sy'n bodloni agendâu llywodraethol a lleol.

Mae Rhwydwaith Diabetes Sir Gaerfyrddin yn derbyn cydnabyddiaeth o bob cwr o'r DU trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol gyda'r timau eraill sy'n meddu ar Ddyfarniad Rhannu Arweinyddiaeth ar gyfer Newid y Sefydliad Iechyd. Enillodd y rhwydwaith y Dyfarniad hwn yn 2006.

S30.3. Mae'r rhaglenni atal afiechyd a hybu iechyd a reolir yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol a blaenoriaethau a nodwyd yn lleol trwy grŵp gweithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, 'Teimlo'n Dda' a hefyd trwy Gynaliadwyedd Hybu Iechyd yn y GIG. Mae tystiolaeth dda o waith gwerthuso a meincnodi'n arwain at welliant parhaus ac felly rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S30.4. Rydym yn cytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae ganddi lawer o grwpiau defnyddwyr, ynghyd â grwpiau canmolïaeth a chwynion, sy'n cyflawni swyddogaeth hanfodol yn y gwaith o fonitro profiad y defnyddiwr a gall ddefnyddwyr gwasanaeth gynnig eu safbwyntiau ar raglenni atal afiechydon a hybu iechyd a reolir. Cynhelir paneli iechyd yn rheolaidd lle gall trigolion Sir Gaerfyrddin fynegi eu pryderon a dylanwadu ar bolisi yn y dyfodol.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldeb iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;*
- ch. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1. Gweler yr ymateb i safon 18.

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod

ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S32.2. Penderfynwyd yng nghyfarfodydd Archwilio Cysondeb AGIC y byddai'r broses sgorio ar gyfer y safon hon yn adlewyrchu'n uniongyrchol y dyfarniadau mae sefydliadau'n eu derbyn am y Safon Iechyd Gorfforaethol. Byddai Aur ac Arian yn cyfateb i Ymarferol ac Efydd yn cyfateb i Ddatblygol. Gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi ennill y dyfarniad efydd y Safon Iechyd Gorfforaethol, rydym wedi asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Gorfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Mae crynodeb o lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon a aseswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin trwy ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn prosesau profi a gwerthuso ar gael yn Atodiad 2.

5. Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gan Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro gweithrediad fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

5.2. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella'r dull asesu a'i wneud yn fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol ac alinio'r broses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd gyda'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd yn integreiddio canfyddiadau adroddiadau unigol yn drosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd yr adroddiad yn pwysleisio'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan y broses asesu Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â hwy ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Mae ymwybyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon

Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 2

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 3

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 4

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 5

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	L	↓	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	L	↔	L
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 6

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 7

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 8

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 9

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 10

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 11

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 12

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 13

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 14

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 15

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 16

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 17

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 18

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 19

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 20

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 21

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 22

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 23

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 24

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 25

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 26

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 27

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 28

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 29

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Aseiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D



Safon 31 – Ddim yn berthnasol

Safon 32


	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Aseiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Atodiad 3


Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Canlyniadau Corfforaethol, Gweithredol/ Clinigol a Lefelau Profiad y Defnyddiwr




Sgoriau Lefel Aeddfedrwydd Canlyniadau Gweithredol/Clinigol



Sgoriau Lefel Aeddfedrwydd Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno gyda Sgôr yr Ymddiriedolaeth



Rhestr Termau Allweddol

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – yn darparu cyngor i'r Gweinidog dros iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n cynnig model y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u troi'n gamau gweithredu. Mae'n cynorthwyo gwelliant parhaus i berfformiad sefydliadol.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd y broses o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – set o gamau trin a gofal a ddiffiniwyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion penodol pob claf.

archwiliad clinigol – gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso a mesur pa mor dda maent yn bodloni safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaethau.

llywodraethu clinigol – fframwaith sy'n gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus a diogelu safonau uchel o ofal.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymuned - sefydliadau dielw, hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi cymunedol. Sefydlwyd y Cyngorau ym 1992 er mwyn cynyddu cyfraniad y gymuned at y broses o ddiffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Mae'r Cyngorau'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i gael eu hymgynghori ar newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

Swyddfa Cofnodion Troseddol - asiantaeth weithredol a sefydlwyd i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa'n cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n golygu cysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

diogelu data – gofyniad i gyrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Mae cyfrifoldebau o'r fath yn ddyletswyddau dan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, sydd â'r nod o ddiogel data sydd gan sefydliadu ar unigolion.

Cynllun Oes - yn nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n sefydlu strategaeth 10 mlynedd i'w gwireddu. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn para tua thair blynedd. Maent yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Darparu Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau ymhlith y Gorau yn y Byd.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon o ansawdd ym mhob lleoliad iechyd.

rheoli heintiau – set o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer diheintiedig ac ati.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Ymddiriedolaethau'n cyflogi pob math o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, yn cynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawdriniaeth mewn ysbytai fel rheol. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, yn y gymuned fel rheol, ee nyrsys ardal, ciropodyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfunol yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaethau cymunedol ac aciwt dan un bwrdd rheoli.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG a chleifion ar feddygiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad i gyd i roi adroddiadau am gamgymeriadau sy'n effeithio ar ddiogelwch claf ac, yn bwysicach, i ddysgu o'r camgymeriadau hyn.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru - yn darparu pob math o wasanaeth iechyd cyhoeddus gyda'r nod o: wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau iechyd cyfredol a newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a; chyfrannu ar wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o afiechyd a salwch.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd – strategaeth a gynlluniwyd i sicrhau yr ystyrir sylwadau a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol y Coleg Nyrso Brenhinol - rhaglen sy'n neilltuo amser i nyrsys arsylwi gofal a'r ddarpariaeth o wasanaethau, a chyfweld â chleifion am y ddarpariaeth o ofal. Bwriad y rhaglen yw galluogi nyrsys i ddatblygu eu galluoedd arwain a'u gwneud yn fwy effeithiol, gwella sgiliau tîm a sefydliadol a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

Datganiadau o Reolaeth Fewnol - datganiad ar drefniadau corff cyffredinol y GIG ar gyfer sicrhau bod y prif beryglon mewn sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth -grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y statud am wneud penderfyniadau mawr am strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel rheol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pump o aelodau lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Cronfa Risg Cymru - cydgyllun hunan-sicrhau ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau a nodwyd.